**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus**

—

**Public Accounts and Public Administration Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCCGG@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCCGG
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddPAPA@senedd.wales
senedd.wales/SeneddPAPA
0300 200 6565

James Price – Prif Weithredwr Trafnidiaeth Cymru

19 Ebrill 2023

Gwaith Trafnidiaeth Cymru i gaffael cerbydau rheilffyrdd

Annwyl James,

Mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus wedi cael gohebiaeth sy'n trafod y gwaith o gaffael/cyflenwi pum trên batri/disel hybrid 'Dosbarth 230', fel y deallwn, gan VivaRail, ac yn sgil penodi gweinyddwyr i'r cwmni. Mae'r ohebiaeth yn codi pryderon am effaith bosibl y datblygiadau hyn ar y cynlluniau ar gyfer rhoi'r trenau hyn ar waith, a'r oedi a gafwyd hyd yma. Er mwyn helpu â'n gwaith cychwynnol wrth i ni ystyried y materion a godwyd yn yr ohebiaeth, byddai'r Pwyllgor yn croesawu rhagor o fanylion am y trefniadau. Yn fwy penodol:

- cadarnhad o nifer/manyleb y trenau a archebwyd ac a yw'r rhain wedi'u cyflenwi'n llawn (os na, cadarnhad o'r hyn sy'n weddill);
- a yw'r trenau wedi eu prynu'n llwyr neu'n cael eu prydlesu, a'r rhesymau am hynny y naill ffordd neu'r llall, a phryd ymrwymwyd i'r trefniadau cytundebol;
- pryd oedd Trafnidiaeth Cymru yn disgwyl yn wreiddiol y byddai'r trenau'n cael eu rhoi ar waith ac ar ba lwybrau, ynghyd ag unrhyw newid i'r safbwynt hwnnw y naill ffordd neu'r llall (yng nghyd-destun patrymau o ran galw yn dilyn y pandemig);
- rhesymau pam nad yw'r trenau eisoes ar waith a'r cynlluniau gwreiddiol ar gyfer eu gwasanaethu/eu cynnal;
- cyfanswm y costau i'r pwrs cyhoeddus hyd yma, sut mae'r costau hyn wedi eu dadansoddi, ac unrhyw ddyledion sy'n weddill y naill ffordd neu'r llall;
- asesiad Trafnidiaeth Cymru o effaith y ffaith bod VivaRail bellach yn nwylo'r gweinyddwyr neu ffactorau eraill ar y cynlluniau i gyflwyno'r trenau hyn a'r trefniadau cynnal a chadw parhaus.

Byddem yn ddiolchgar hefyd pe gallech ymateb erbyn 19 Mai 2023 os yw hynny'n bosibl. Os bydd unrhyw wybodaeth sy'n fasnachol sensitif, yn eich barn chi, ond y gellid ei rhannu â'r Pwyllgor yn gyfrinachol, yna gofynnaf i chi drafod ymhellach â'r tîm clercio ynglŷn â sut y dylid ymdrin â'ch ymateb.

Yn gywir,

Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

Copi at:

Tracey Burke – Cyfarwyddwr Cyffredinol, Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, Llywodraeth Cymru

Peter McDonald – Cyfarwyddwr, Seilwaith Economaidd, Llywodraeth Cymru